Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfarfod y Bwrdd

4 Medi 2013

Teitl y Papur	**Crynodeb y Cadeirydd o fusnes cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a gynhaliwyd 15 Gorffennaf 2013**
Cyfeirnod y Papur:	**Papur NRW B (O) 35.13**
Awdur y Papur:	Nigel Reader

Pwrpas y Papur:	**Gwybodaeth**
Argymhelliad:	Nodi prif eitemau'r drafodaeth
Penderfyniad Angenrheidiol:	Amherthnasol

Effaith: Sylwer – mae'n bosibl na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r testun	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Amherthnasol **Effaith ar yr Economi**: Amherthnasol **Effaith ar Bobl a Chymunedau**: Amherthnasol **Effaith ar Wybodaeth**: Amherthnasol

Mater

1. Briffio'r Bwrdd ar brif bwyntiau'r drafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a gynhaliwyd 15 Gorffennaf 2013.

Crynodeb

2. Cynhaliwyd cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Gorffennaf drwy gynadledda fideo, ac roedd ein prif ganolfan ym Mae Caerdydd wedi'i chysylltu â thri safle arall. Cawsom y fantais o bresenoldeb holl aelodau'r pwyllgor ynghyd â gostyngiad cymesur mewn amser a chostau teithio, ac yn ein hôl troed carbon.

3. Roedd rhan gyntaf yr agenda wedi'i neilltuo i drafod yr adroddiadau blynyddol a chyfrifon drafft am 2012-13 ar gyfer CCGC a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Roedd y ddwy ddogfen wedi'u mireinio ers i ni eu hadolygu gyntaf ym mis Mehefin drwy alwadau cynadledda. Cadarnhaodd Swyddfa Archwilio Cymru ei bod yn bwriadu rhoi tystysgrifau archwiliad allanol diamod ar gyfer y ddwy set o gyfrifon ac roedd Penaethiaid Archwilio Mewnol CCGC a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru wedi rhoi sicrwydd cadarnhaol yn eu barn flynyddol am 2012-13. Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, nid oedd y Pwyllgor yn petruso rhag argymhell y ddwy ddogfen i'w cymeradwyo a'u llofnodi gan Emyr, y Swyddog Cyfrifyddu perthnasol.

4. Roedd nifer o faterion i'w dilyn gan gynnwys:-

   - adennill grant o £97,000 a dalwyd gan CCGC i hawlydd gwael ei berfformiad;
   - dysgu gwersi drwy ymgynghori â Swyddfa Archwilio Cymru o ganlyniad i'r broses diwedd blwyddyn (a oedd wedi gweithio'n dda yn CCGC, ond nid cystal yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru);
   - adolygu'r broses ar gyfer yr ailbrisiad cyfnodol o'r ystad goedwig.

   Roeddem yn dawel ein meddwl bod y rheolwyr wedi amgyffred yr holl bwyntiau pwysig.

5. Rhoesom groeso i'r Cynllun a Rhaglen Flynyddol ddiweddaraf gan Bennaeth Archwilio Mewnol CNC ar gyfer 2013-14 a chymeradwyo sylwedd y ddogfen, ar yr amod bod rhai amrywiadau penodol yn cael eu gwneud a bod hyblygrwydd o hyd i ymateb i anghenion y Swyddog Cyfrifyddu o ran sicrhau risg wrth iddynt godi. Yn hytrach nag ychwanegu at y rhaglen archwilio mewnol, roedd Emyr yn dymuno ystyried y posibilrwydd o gomisiynu Adolygiad Gateway ar gyfer Cyfnod Pontio CNC – wedi'i gysylltu o bosibl â rhyddhau'r Pwyllgor Tâl o'i rôl fel Grŵp Cynghori ar Bontio. Cytunwyd y dylid drafftio datganiad interim ar lywodraethu i gyd-fynd â'r gwaith o lunio set o gyfrifon interim yn ddiweddarach yn y flwyddyn gan y byddai hyn o gymorth i dynnu sylw at unrhyw fylchau o ran sicrhau risg.

   Hefyd cymeradwywyd Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer CNC y byddwn yn ei hargymell i'w chymeradwyo gan y Bwrdd.

6. Adolygwyd dau adroddiad archwilio mewnol ar destunau penodol – Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar gyfer 2012-13. Roedd yr adolygiad cyntaf wedi troi ein meddyliau hefyd at ddrylliau a risgiau a chyfrifoldebau o ran amddiffyn plant ac ymgymerodd Emyr i gael gwybodaeth am hyn. Yn yr ail adolygiad cafwyd dilysiad annibynnol o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gyhoeddwyd yn adroddiad blynyddol Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Croesawyd hyn gan Emyr a'r Pwyllgor gan eu bod yn ei weld yn ddull y gallai

fod yn fanteisiol ei gymhwyso at y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer Dangosfwrdd CNC.

7. Gan ystyried y cyfyngiadau ar amser a lefelau ynni, cytunwyd i ohirio'r drafodaeth helaeth ar bolisi rheoli risg CNC tan ein cyfarfod nesaf ym mis Medi. Ond rhoesom sicrwydd digonol ar gyfer defnyddio'r polisi drafft yn fframwaith i'w ddatblygu ymhellach gan reolwyr a chytunwyd bod y fersiwn diweddaraf o'r gofrestr risgiau corfforaethol, ar ôl ei haildrefnu ychydig, i'w ddefnyddio'n sail i ysgogi trafodaeth gan y Bwrdd ym mis Medi.

   Byddai angen i'r Bwrdd gynnal trafodaeth gysylltiedig, ond ar wahân, i ystyried y risgiau a chyfleoedd pwysicaf yng nghyswllt yr amgylchedd a sut y gall CNC helpu i drefnu a chyfeirio ymdrechion i ymateb iddynt.

8. Rhai o'r materion eraill a drafodwyd oedd:-

   • adolygu'r cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru ar gyfer rheolwyr sy'n ymateb i'r argymhellion yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru am werth am arian yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru;

   • cytuno ar broses ar gyfer adolygu Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg CNC ar sail yr arferion gorau sydd wedi'u hargymell gan Drysorlys EM yn ei Lawlyfr ar Bwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae hyn yn debygol o arwain at yr angen am newid cylch cyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg;

   • nodi'r Safonau cyfredol ar gyfer Archwilio Mewnol yn y Sector Cyhoeddus sydd yn gyd-destun i Siarter Archwilio Mewnol CNC.

9. Yn unol â'r arfer yr ydym wedi'i fabwysiadu fel sefydliad sy'n dysgu, treuliwyd y deng munud olaf yn adolygu'r cyfarfod a oedd newydd ddod i ben.

   Ymhlith y sylwadau a gafwyd roedd rhai a oedd yn nodi ein bod:-

   • wedi cadw'r drafodaeth ar y lefel briodol;

   • wedi dechrau a gorffen yn brydlon;

   • wedi sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng eitemau;

   • wedi taro'r nodyn cywir rhwng herio adeiladol a chefnogaeth i Emyr fel Swyddog Cyfrifyddu.